# Cyfeirlyfr Gwasanaethau

# Grant Cymorth Tai

# Rhondda Cynon Taf

# MYNEGAI


| | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3-5 |
| Sut mae gwneud cais? | 6 |
| Gwasanaethau Cam-drin Domestig | 7-12 |
| Gwasanaethau Llety Dros Dro | 13-15 |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl/Anghenion Cymhleth | 16-28 |
| Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau | 29 |
| Gwasanaethau Pobl Ifainc | 30-38 |
| Gwasanaethau ar gyfer Teuluoedd Agored i Niwed | 39 |
| Gwasanaeth Cymorth fel y bo Angen yn yr Ardal Leol (RhCT) | 40-41 |
| Hyfforddiant Cyn-Denantiaeth | 42 |
| Cynllun Dementia | 43 |
| Gwasanaethau Atal Digartrefedd (Tŷ Sardis) | 44-45 |
| Gwasanaeth Atal Digartrefedd (Lleoliadau eraill) | 46-52 |

## CYFLWYNIAD

### BETH YW'R GRANT CYMORTH TAI?

Mae Cynllun y Grant Cymorth Tai yn ariannu, datblygu a monitro nifer o wasanaethau, gan gynnwys tai â chymorth, a chymorth materion tai i bobl sy'n agored i niwed.

Nod y gwasanaethau yw rhoi cyfleoedd i bobl sydd angen cymorth i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol neu gynnal ffordd o fyw annibynnol yn y gymuned.

Mae'r gwasanaethau'n canolbwyntio ar atal neu ddatrys problemau a fyddai o bosibl yn arwain at ddigartrefedd, gofal preswyl, mynd i'r ysbyty neu droseddu.

### BETH YW CYMORTH MATERION TAI?

Mae modd i Gymorth Materion Tai helpu pobl i feithrin y sgiliau sydd eu hangen er mwyn cynnal neu ddatblygu'r gallu i fyw'n annibynnol yn y gymuned, a gwneud cyfraniad cadarnhaol iddi.

Mae modd darparu cymorth mewn Llety â Chymorth neu Lety Mewn Argyfwng neu yng nghartref yr unigolyn. Dylai cymorth alluogi pobl i fod yn annibynnol.

Mae modd darparu cymorth i gynorthwyo â nifer o faterion, gan gynnwys:

- Cyfeirio unigolion at asiantaethau eraill, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a gwasanaethau iechyd, a helpu pobl i gysylltu â'r asiantaethau yma
- Rhoi trefn ar y cartref ac edrych ar ei ôl, gan gynnwys rheoli tenantiaeth
- Cyllidebu, rheoli arian, a chynyddu incwm
- Meithrin sgiliau byw ymarferol
- Problemau Iechyd Meddwl
- Ailadeiladu/datblygu cysylltiadau â rhwydweithiau cymdeithasol/teuluoedd a lleihau unigrwydd cymdeithasol
- Cynyddu diogelwch personol
- Cyngor ar faterion yn ymwneud â thai, ailsefydlu, ôl-ddyledion, cael eich hel o'r tŷ ac ati

### I BWY MAE'R GARFAN GRANT CYMORTH TAI YN RHOI CYMORTH?

Mae cymorth ar gael mewn sawl ffurf gan gynnwys ar gyfer y rheini sydd ddim â'u llety eu hunain sydd angen llety â chymorth, yn ogystal â'r rhai sydd â'u cartrefi neu eu tenantiaethau eu hunain, yn breifat neu wedi'u rhentu. Dydy'r cynlluniau ddim yn addas ar gyfer pobl fydd ddim yn gallu byw'n annibynnol.

Mae modd darparu cymorth i bobl sydd eisiau eu cartrefi eu hunain ond sydd angen datblygu'r sgiliau y mae eu hangen i reoli tenantiaeth.

Mae cymorth ar gael i:

- Pobl ddigartref/Pobl sy'n wynebu bod yn ddigartref o bosib
- Cyn-droseddwyr
- Pobl ag anabledd corfforol
- Pobl sy'n profi cam-drin domestig, neu sydd wedi' brofi yn y gorffennol
- Pobl â phroblemau gyda chyffuriau a/neu alcohol
- Pobl hŷn
- Pobl ifainc
- Pobl â salwch cronig
- Pobl ag anawsterau dysgu
- Pobl ag anghenion iechyd meddwl
- Ffoaduriaid
- Teuluoedd sy'n agored i niwed

**YR HYN NAD YW CYMORTH MATERION TAI YN EI WNEUD:**

Dydy'r Grant Cymorth Tai ddim yn ariannu'r canlynol:

- Materion rheoli tai
- Cwnsela arbenigol
- Gofal oriau dydd
- Gofal personol
- Cymorth mewn cartref gofal
- Gwaith allgymorth gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd
- Canolfannau galw heibio
- Gofal iechyd
- Darparu meddyginiaeth
- Rhaglenni dadwenwyno
- Ymyriadau therapi
- Gwasanaethau cyfryngu (dros 24 oed)

**A oes angen cymorth materion tai arnoch chi?**

**Os oes, mae modd i ni helpu.**

**Mae modd i wasanaethau'r Grant Cymorth Tai ddarparu help a chymorth gyda'r canlynol:**

- Cyllidebu
- Materion yn ymwneud â dyled
- Bygythiad bod yn ddigartref
- Gwneud y mwyaf o'ch incwm a helpu i dalu biliau
- Cyd-weithio â gweithwyr proffesiynol priodol
- Cyngor ar sut i gadw eiddo'n ddiogel
- Sgiliau byw bob dydd

**Mae'r Grant Cymorth Tai yn bennaf yn ariannu dau gategori o gymorth:**

**Llety â Chymorth a Chymorth fel y bo angen.**

**Mae gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn helpu pobl ag ystod o anghenion, gan gynnwys:**

- Digartrefedd
- Cam-drin yn y Cartref
- Iechyd Meddwl
- Pobl Ifainc
- Anableddau Dysgu
- Pobl hŷn

## Y COSTAU SYDD YNGHLWM

Yn gyffredinol, mae gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn rhad ac am ddim. Serch hynny, os yw unigolyn yn defnyddio gwasanaeth tai â chymorth, tai gwarchod, llety uniongyrchol neu lety lloches efallai y bydd raid iddyn nhw dalu am rai pethau, e.e. costau gwresogi.

Mae'r rhent a'r taliadau ffioedd gwasanaeth yn uwch na thai anghenion cyffredinol, felly os yw unigolyn yn gweithio a dydyn nhw ddim yn gymwys i gael budd-dal tai, efallai fydd dim modd i'r unigolyn fforddio'r gwasanaeth tai â chymorth. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd opsiynau eraill megis cymorth fel y bo angen yn eu cartrefi eu hunain neu mewn tai sy'n cael eu rhannu yn fwy priodol.

## I BWY MAE'R CYFEIRLYFR YMA?

Mae'r cyfeirlyfr yma ar gyfer unrhyw un sydd angen cyngor neu wybodaeth am wasanaethau cymorth materion tai sy'n cael eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai yn Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn cynnwys staff asiantaethau neu sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl sydd angen defnyddio gwasanaeth cymorth, a phobl sydd angen cymorth iddyn nhw eu hunain neu i rywun maen nhw'n ei adnabod.

## BETH SYDD YN Y CYFEIRLYFR YMA?

Mae'r cyfeirlyfr yn rhestru'r holl wasanaethau cymorth â thai sy'n cael eu hariannu yn yr ardal yma ac sydd ar gael.


Mae'n cynnwys manylion y gwasanaethau mae'r Garfan Grant Cymorth Tai yn eu darparu ac i bwy maen nhw.

## PWY SY'N CAEL ATGYFEIRIO I'R GWASANAETHAU SY'N CAEL EU HARIANNU GAN Y GRANT CYMORTH TAI?

Mae modd i unrhyw un atgyfeirio. Does dim rhaid i chi fod yn gorff proffesiynol. Mae modd i chi gyfeirio'ch hun, neu mae modd atgyfeirio rhywun sydd angen cymorth yn eich barn chi.

## SUT MAE GWNEUD CAIS?

Os hoffech chi atgyfeirio rhywun arall neu eich hun, llenwch y Ffurflen Atgyfeirio, oni nodir yn wahanol.



RHONDDA CYNON TAF

**Housing-Related Support**

**Referral Form**

**Please complete this form if you are interested in receiving support to help you successfully manage your home, or you would like to be considered for supported housing, and sign the form. If you are completing this form on behalf of someone else, please discuss the referral with them and ensure that they agree to receive support and sharing the information.**
**If you are unable to get the form signed, please ensure verbal consent is given and note this in in the signature box at the end of this form before returning it.**

1. **Communication**

| | | |
|---|---|---|
| Are you able to communicate in English/Welsh? | ☐ Yes<br>☐ No | |
| Which Language would you like us to communicate with you in? | ☐ Welsh<br>☐ English | ☐ Bilingually |
| Do you have any communication needs you would like us to consider? | ☐ Hearing Impairment<br>☐ Visual Impairment<br>☐ No | ☐ Speech Impairment<br>☐ Physical Impairment<br>☐ Prefer not to say |
| Do you require a British Sign Language (BSL) worker? | ☐ Yes<br>☐ No | |
| If your first language is not English/Welsh, do you require a translation service? | ☐ Yes<br>☐ No | |
| If YES, please provide details | | |

**How we use your personal data:**
The information in this form is required to help us understand your individual needs and how best we can support you by referring you to the most appropriate provider.

If you would like to know more about how the Housing Support Grant Team (formally Supporting People Team) processes your personal data, please visit our service privacy notice on the Council's Data Protection pages at www.rctcbc.gov.uk/dataprotection or ask a member of the team.

Grant Cymorth Tai Housing Support Grant

RHONDDA CYNON TAF

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi am wasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai, cysylltwch â'r Garfan Grant Cymorth Tai (Garfan Cymorth i Bobl gynt):

**Cyfeiriad:** **Carfan Grant Cymorth Tai, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU**

**Rhif ffôn:** **01443 281482** **E-bost:** CymorthiBobl@rctcbc.gov.uk

**Gwefan [www.rctcbc.gov.uk/CefnogiPobl](www.rctcbc.gov.uk/CefnogiPobl)**

## Gwasanaethau Cam-drin Domestig

### Gwasanaethau Llety â Chymorth

**Gwasanaethau Cam-drin Domestig - Lloches RhCT**

**Grŵp Oedran:** **16 oed a hŷn (Menywod yn unig)**

**Cymorth ar gael:** **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos (Lloches)**
**Dydd Llun-Dydd Gwener, 9am-5pm (Tai Wedi'u Rhannu)**

**Ar gael drwy:** **Mynediad uniongyrchol trwy'r Gwasanaethau Cam-drin Domestig neu'r Garfan Materion Tai (26 lle)**

Mae gyda Gwasanaeth Cam-drin Domestig RhCT ddarpariaeth Lloches (llety mewn argyfwng) ar gyfer menywod a'u plant sy'n ffoi rhag cam-drin domestig. Mae gyda'r brif loches derbyn ac asesu 9 ystafell wely sy'n cynnwys cyfleusterau cegin ac ystafell ymolchi unigol. Mae gyda'r lloches hefyd fannau byw cymunedol, cyfleusterau golchi dillad a mannau chwarae i blant a phobl ifainc. Yn gyffredinol, mae pobl yn aros yn y lloches derbyn ac asesu am gyfnod byr (1-2 wythnos) cyn symud i un o'n llochesau rhanbarthol eraill.

Tai wedi'u rhannu yn ardaloedd Taf-elái a Chwm Cynon yw'r llochesau eraill. Bydd ystafell wely eu hunain gyda phob teulu/person unigol, ond byddan nhw'n rhannu'r ystafelloedd ymolchi, cegin, lolfa ac ardaloedd i blant gyda theuluoedd/unigolion eraill. Mae pob lloches o fewn cyrraedd i gyfleusterau, ysgolion a chysylltiadau trafnidiaeth leol. Bydd gweithiwr cymorth o garfan o weithwyr cymorth profiadol, benywaidd yn cael ei bennu i bob teulu/unigolyn a bydd yn cynllunio sesiynau cymorth wedi'u strwythuro ac wedi'u teilwra i anghenion cymorth unigolion. Nod Gwasanaethau Cam-drin Domestig RhCT yw darparu cymorth cyfannol a gweithio'n agos gyda phob asiantaeth bartner, gan gynnwys derbyn mewnbwn rheolaidd gan asiantaethau iechyd, tai a'r gyfraith.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch ag Alyson Shmylo.**

**Rhif ffôn:** 01443 400791 **(oriau swyddfa Dydd Llun-Dydd Gwener, 9am-5pm)**
**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn@** 08088010800 **(nosweithiau a phenwythnosau)**

**E-bost:** alysonshmylo@wa-rct.org.uk






# Gwasanaethau Cam-drin Domestig Eraill

### Cynllun Cymorth fel y bo Angen Gwasanaethau Cam-drin Domestig RhCT

**Grŵp Oedran:** **16 oed a hŷn (Menywod a Dynion)**

**Cymorth ar gael:** **Cymorth ar gael ar adegau wedi'u cytuno drwy gydol yr wythnos yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (35 lle)**

Mae gyda Gwasanaeth Cam-drin Domestig RhCT gynllun sy'n rhoi cymorth fel y bo angen i fenywod a dynion sydd wedi dioddef cam-drin domestig sy'n byw yn eu tenantiaethau eu hunain yn ardal RhCT. Mae 35 lle ar gael ar y cynllun cymorth fel y bo angen. Mae modd i blant ar y cynllun hefyd gael gafael ar gymorth trwy Wasanaethau Cam-drin Domestig RhCT.

Mae'r cynllun yn darparu cymorth i fenywod sydd ag anghenion cymorth mewn perthynas â thai neu sydd angen cymorth i gynnal eu tenantiaethau cyfredol. Yn gyffredinol, mae cymorth ar gael am hyd at 3 mis gydag estyniad hyd at 12 mis yn dilyn adolygiad.

Yn debyg i'r ddarpariaeth lloches, mae cymorth wedi'i deilwra i unigolion ar sail anghenion yr unigolyn, risg a chynllun cymorth. Mae modd darparu cymorth yn y meysydd canlynol:

- Sefydlu cartref a thenantiaeth
- Cymorth gydag arian a chyllido
- Cymorth i gynnal diogelwch y cartref
- Datblygu sgiliau byw'n annibynnol
- Cymorth i gael gafael ar gyfleusterau cymunedol a'u defnyddio
- Cymorth i gael gafael ar gyfleoedd cyflogaeth/hyfforddiant/gwirfoddoli
- Cymorth i helpu gydag iechyd a lles cyffredinol

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Gwasanaethau Cam-drin Domestig RhCT**

**Rhif ffôn:** 01443 400791 **(oriau swyddfa Dydd Llun-Dydd Gwener, 9am-5pm)**

**E-bost**: alysonshmylo@wa-rct.org.uk

Cynllun SAFE

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **Cymorth ar gael dros y ffôn, wyneb yn wyneb/ar-lein ac mewn grwpiau ar amseroedd y cytunwyd arnyn nhw**

**Ar gael drwy:** **Mynediad Uniongyrchol drwy Wasanaethau Cam-drin Domestig RhCT**

Mae cynllun SAFE yn darparu cymorth, eiriolaeth ac arweiniad i unigolion wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod, a hynny er mwyn eu galluogi i ddod i benderfyniadau gwybodus a datblygu eu sgiliau a'u hyder fel bod modd iddyn nhw gymryd gwell reolaeth ar eu bywydau a byw mewn amgylchedd diogel. Mae'r cynllun yn darparu cefnogaeth galw heibio dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ynghyd ag ystod o raglenni grŵp gan gynnwys y rhaglen ryddid, pecyn cymorth adfer a 'gobaith tuag at adfer' sydd ar gael ar-lein neu'n rhan o grŵp. Mae canolfannau galw heibio yng nghanol trefi Pontypridd ac Aberdâr, ac yng Nghwm Rhondda, sy'n darparu mynediad at loches a chynlluniau cymorth fel y bo'r angen, ynghyd ag ystod o sesiynau cymorth gan asiantaethau allanol, gan gynnwys cyngor cyfreithiol a chyngor ar reoli dyled.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Jessica Barrow.**

**Manylion Cyswllt:**

**Ffôn: 01443 400791**

**E-bost: Emma Williams emmawilliams@wa-rct.org.uk**

## CLEAR - Change That Lasts Early Awareness Raising

**Grŵp Oedran:** Dynion 18 oed a hŷn

**Cymorth ar gael:**

2 x sesiwn asesu 1 yr wythnos am awr (apwyntiadau dydd a gyda'r hwyr)
6 x 1 i 1 sesiwn 1 yr wythnos am 1 awr (apwyntiadau dydd a gyda'r hwyr)

**Ar gael drwy:** Ffurflen atgyfeirio

**Meini Prawf:**
Pryderon ar eu pen eu hunain neu gan eraill ynghylch eu hymddygiad o fewn perthnasoedd.
Rhaid bod yn barod i rannu statws perthynas a gwybodaeth partner fel bod modd cynnig cymorth drwy gydol y rhaglen.

**Gwybodaeth:**

Mae CLEAR yn gwrs codi ymwybyddiaeth byr, strwythuredig ar gyfer dynion heterorywiol sy'n oedolion sy'n poeni am eu hymddygiad tuag at fenywod. Mae'r cwrs codi ymwybyddiaeth ysgogiadol yn hwyluso dynion i adnabod eu tactegau camdriniol, cymryd cyfrifoldeb amdanyn nhw a dysgu offer a strategaethau newydd y mae modd eu defnyddio i hybu perthynas iachach.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Karl Hazzard - Rheolwr y Rhaglen.**

**Manylion Cyswllt:**

**Gwefan: www.smt.org.uk**
**E-bost: info@smt.org.uk**
**Rhif ffôn: 07535434166**

SMT

Supporting Safe and Confident Communities
Cefnogi Cymunedau Diogel a Hyderus

# Driving Change

**Grŵp Oedran:** Dynion 18 oed a hŷn

**Cymorth ar gael:**

2 x Sesiwn asesu 1 yr wythnos am 1 awr
6 x sesiwn cyn-grŵp 1 yr wythnos am 1 awr
26 x sesiwn grŵp 1 yr wythnos am 2-2.5 awr ar nos Fawrth 6pm - 8pm

**Ar gael drwy:** Ffurflen atgyfeirio

**Meini Prawf:**

Rhaid bod ymddygiadau camdriniol o fewn perthynas agos.
Rhaid cymryd cyfrifoldeb am ymddygiadau.
Rhaid bod yn barod i ymrwymo i'r rhaglen.
Rhaid bod yn barod i rannu statws perthynas a gwybodaeth partner fel bod modd cynnig cymorth drwy gydol y rhaglen.

**Gwybodaeth:**

Pwrpas y rhaglen yw herio a chefnogi cyflawnwyr cam-drin i roi'r gorau i'w hymddygiad treisgar a chamdriniol, a datblygu agwedd barchus, gariadus a chyfrifol tuag at y rhai o'u cwmpas a'u hunain. Mae wedi datblygu dull penodol o weithio gydag unigolion, i gefnogi hwyluso fod yn ddeinamig ac ymatebol yn hytrach na rhagnodol a fformiwläig. Mae modd ei weld fel ei fod yn cynnwys tair haen neu lefel wahanol ond cydgysylltiedig: Ymwybyddiaeth Ofalgar/Ymwybyddiaeth ac Ymholi; Pedair Egwyddor Di-drais; Themâu Mawr y rhaglen.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Karl Hazzard, Rheolwr y Rhaglen.**

**Manylion Cyswllt:**

**Gwefan: www.smt.org.uk**
**E-bost: info@smt.org.uk**
**Rhif ffôn: 07535434166**

**Gofal a Thrwsio Cymru (Cam-drin Domestig)**

**Grŵp Oedran:** **Dim cyfyngiad oedran**

**Cymorth ar gael:** **Cymorth yn eich cartref eich hun**

**Lefel y Cymorth:** **Yn addas ar gyfer y rheiny sydd wedi profi cam-drin domestig**

**Ar gael drwy:** **Canolfan Oasis**

Nod y cynllun Gofal a Thrwsio yma yw lleihau digartrefedd drwy alluogi'r rheiny sy'n profi cam-drin domestig i aros yn eu cartrefi eu hunain - lle bo'n ddiogel ac yn briodol i wneud hynny - drwy ddarparu mesurau diogelwch i'w helpu nhw a'u teuluoedd i deimlo'n ddiogel. Mae'r cynllun yn agored i bawb sy'n profi cam-drin domestig, a chaiff atgyfeiriadau eu gwneud drwy'r Ganolfan Oasis ym Mhontypridd, a hynny'n rhan o'ch trefniadau cynllunio diogelwch.

Yn rhan o'r broses atgyfeirio yma, mae ystod o opsiynau tai yn cael eu trafod a'u cynnig er mwyn galluogi'r unigolyn i ddod i benderfyniad gwybodus am yr opsiynau sy'n gweddu orau i'w hanghenion a'u hamgylchiadau. Mae modd i hyn gynnwys:

- Newid cloeon ar ffenestri a drysau
- Larymau ar ffenestri a drysau
- Teclynnau dal/cadwyni drws
- Larymau Personol
- Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)
- Goleuadau diogelwch ac
- Offer diogelwch tân gan gynnwys diffoddwyr/ blancedi tân/blychau llythyrau diogel rhag tân
- Blychau llythyrau allanol

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Mandy Jones.**

**Manylion Cyswllt:**

**Ffôn: 01443 755696**

**E-bost: mjones@cwmtafcr.org.uk**

# Llety dros dro

### Hostel Stryd y Felin, Pontypridd

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos**

**Ar gael drwy:** **Carfan Materion Tai (10 lle)**

Mae gyda POBL hostel 10 gwely ar gyfer unigolion digartref. Mae gyda phob unigolyn ystafell ac ystafell ymolchi ei hun, ond mae pawb yn rhannu'r lolfa gymunedol, y gegin a'r cyfleusterau golchi dillad. Bydd disgwyl i unigolion gymryd rhan mewn sesiynau cymorth wedi'u trefnu a chymryd rhan mewn gweithdai rheolaidd i'w helpu i ddatblygu'r sgiliau i fyw'n annibynnol.

Mae disgwyl y bydd unigolion yn aros hyd at 16 wythnos ar y mwyaf, yn ddibynnol ar eu hanghenion. Mae cymorth yn Hostel Stryd y Felin ar gael drwy atgyfeiriad gan Garfan Materion Tai'r Cyngor.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch ag Andrea Davies**

**Rhif ffôn: 07796724077**

**Rhif ffôn: 01443 809444**

**E-bost:** digartrefedd@rctcbc.gov.uk






The Grange, Pontypridd

**Grŵp Oedran:** **16-24 oed**

**Cymorth ar gael:** **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos**

**Lefel y Cymorth:** **Yn addas ar gyfer pobl ifainc ag anghenion cymorth uwch**

**Ar gael drwy:** **Carfan Materion Tai (10 lle)**

Mae'r Grange yn hostel 10 gwely ar gyfer pobl ifainc ddigartref rhwng 16 a 24 oed. Mae gyda phob unigolyn ei ystafell ei hun sy'n cynnwys cyfleusterau ystafell ymolchi a choginio ond bydd unigolion yn rhannu'r cyfleusterau golchi dillad, y lolfa a'r gegin gymunedol. Mae brecwast yn cael ei ddarparu hefyd.

Bydd disgwyl i unigolion gymryd rhan mewn sesiynau cymorth wedi'u trefnu a chymryd rhan mewn gweithdai rheolaidd i'w helpu i ddatblygu'r sgiliau i fyw'n annibynnol. Pan gaiff ei ystyried bod unigolion yn barod i symud ymlaen, mae disgwyl iddyn nhw gymryd rhan yn y cynllun 'Get Ready and Move On' i'w helpu nhw i ddeall sut i reoli tenantiaeth. Bydd yr amser mae unigolion yn ei dreulio'n rhan o'r cynllun yn ddarostyngedig i anghenion unigol a threfniadau 'symud ymlaen'. Mae cymorth ar gael yn yr hostel drwy gysylltu â Charfan Materion Tai'r Cyngor.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Sam Taylor (rheolwr yr hostel) Rhif Ffôn: 07770029226**

**Rhif cyswllt y prosiect:** **01443 493389**

**E-bost:** digartrefedd@rctcbc.gov.uk






stori
Start a new chapter
Dechrau pennod newydd

## Clos Mildred, Beddau

### Llety Dros Dro i Fenywod Sengl Digartref 18+ (5 uned) 3 uned mewn tŷ a 2 fflat un ystafell wely

**Grŵp Oedran:** **Menywod sengl 18 oed a hŷn sy'n agored i niwed**

**Cymorth ar gael:** **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos**

**Ar gael drwy:** **Carfan Materion Tai (3 lle)**

Bydd y prosiect a'r model cymorth newydd yma'n cael eu darparu drwy'r darparwr cymorth a bydd yn adeiladu ar gryfderau, rhwydweithiau a pherthnasoedd presennol y gwasanaethau i ddatblygu a darparu gwasanaeth hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i lywio gan ganlyniadau. Bydd y prosiect yn darparu cefnogaeth hyblyg ac amrywiol ar gyfer llety Dros Dro â Chymorth 24/7 i fenywod sengl, digartref sy'n agored i niwed ac sydd:

- ag anghenion sy'n cyd-ddigwydd (gan gynnwys materion iechyd meddwl, problemau camddefnyddio alcohol a/neu sylweddau, troseddu, problemau ymddygiad ac ati)
- wedi cael eu hasesu fel anghenion uchel ac yn rhy agored i niwed i gael eu gosod mewn llety dros dro lle mae dynion yn bennaf lle bydden nhw mewn perygl, hynny yw Three Saints, Scotts
- heb unrhyw faterion Cam-drin Domestig ar hyn o bryd neu'n ffoi rhag Gam-drin Domestig neu anghenion rhy uchel i'w rhoi mewn lloches, eich troi allan o loches
- ddim yn cael eu cefnogi gan unrhyw ddarparwr cymorth/gwasanaeth arall, hynny yw Tai yn Gyntaf, gwasanaethau Cam-drin Domestig RhCT.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Beckie Evans**
**E-bost: beckie.evans@storicymru.org.uk**





## Gwasanaethau Iechyd Meddwl/Anghenion Cymhleth

### Gwasanaethau Llety â Chymorth 24 Awr (Uwch)

**Cynllun Clos Martins, Abercynon (Llety Symud Ymlaen o Hostel Stryd y Felin)**

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth uwch**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (13 lle)**

Mae Clos Martins yn llety â chymorth 13 gwely ar gyfer unigolion sydd angen cymorth i'w helpu i fyw'n annibynnol. Mae gyda phob unigolyn ei ystafell ac ystafell ymolchi ei hun. Bydd disgwyl i unigolion gymryd rhan mewn sesiynau cymorth wedi'u trefnu a chymryd rhan mewn gweithdai rheolaidd i'w helpu i ddatblygu'r sgiliau i fyw'n annibynnol. Mae'n debygol y bydd unigolion ond yn aros rhwng 6 a 12 mis yn ddibynnol ar eu hanghenion.

Bydd gydag unigolion sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma anghenion cymorth uwch a byddan nhw angen y cymorth sydd ar gael i ddatblygu'r sgiliau i fyw'n annibynnol. Mae disgwyl i'r cymorth leihau dros amser wrth i unigolion ddod yn fwy annibynnol. Bydd angen i'r rheiny sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma fod â'r gallu i ddod yn annibynnol yn y pen draw.

Mae gydag un o'r 13 uned ddwy ystafell wely, gydag un sy'n addas ar gyfer unigolion sydd ag anghenion llety wedi'i addasu.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Rachel Davies**

**Rhif ffôn:** **02922 745395**

**E-bost:** **Rachel.Davies2@poblgroup.co.uk**






PLATFFORM

## Cynllun Stryd Sherwood, Llwynypia

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth uwch**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (4 lle)**

Mae cynllun Sherwood yn benodol ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth uwch. Mae'n debygol y bydd unigolion ond yn aros rhwng 6 a 12 mis yn ddibynnol ar eu hanghenion.

Dyma dŷ sy'n cael ei rannu ar gyfer 4 person. Mae gyda phob unigolyn ei ystafell ei hun ond mae pawb yn rhannu'r lolfa gymunedol, yr ardal fwyta, y gegin a'r ystafell ymolchi.

Bydd gydag unigolion sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma anghenion cymorth uwch a byddan nhw angen y cymorth sydd ar gael i ddatblygu'r sgiliau i fyw'n annibynnol. Mae disgwyl i'r cymorth leihau dros amser wrth i unigolion ddod yn fwy annibynnol. Bydd angen i'r rheiny sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma fod â'r gallu i ddod yn annibynnol yn y pen draw.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch ag Andrew Evans**

**Rhif ffôn:** **01685 875508 neu 07866 420219**

**E-bost:** AndrewEvans@platfform.org






## Cynllun Tŷ Caersalem, Tonpentre

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth uwch**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (8 lle)**

Mae'r cynllun tai â chymorth yma'n benodol ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion iechyd meddwl/cymhleth. Mae'n debygol y bydd unigolion ond yn aros rhwng 6 a 12 mis yn ddibynnol ar eu hanghenion.

Cynllun gyda 4 fflat sy'n cael eu rhannu yw Tŷ Caersalem. Mae gyda phob unigolyn ei ystafell ei hun ond mae pawb yn rhannu'r gegin a'r ystafell ymolchi gydag un unigolyn arall. Mae'r cynllun ar gyfer 8 person. Mae lolfa/ystafell weithgareddau gymunedol.

Bydd gydag unigolion sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma anghenion cymorth uwch a byddan nhw angen y cymorth sydd ar gael i ddatblygu'r sgiliau i fyw'n annibynnol. Mae disgwyl i'r cymorth leihau dros amser wrth i unigolion ddod yn fwy annibynnol. Bydd angen i'r rheiny sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma fod â'r gallu i ddod yn annibynnol yn y pen draw.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Jane Kempsell.**

**Rhif ffôn:** **01443 438280**

**E-bost**: Jane.kempsell@poblgroup.co.uk






**Abertonllwyd House, Treherbert**

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth uwch**

Mae'r prosiect yma'n rhoi llety i bobl sengl (dynion a merched) ac yn darparu cefnogaeth hyblyg sy'n ymwneud â thai i helpu unigolion i fyw'n annibynnol a symud i dai amgen fforddiadwy addas.

Mae'r prosiect yma'n lletya hyd at 8 o bobl ar unrhyw un adeg ar ffurf 8 uned hunangynhwysol 24/7. Mae dwy uned ar y llawr gwaelod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Mae pob ystafell wedi'i dodrefnu ac yn unedau hunangynhwysol. Mae'r prosiect wedi'i staffio 24 awr y dydd a chaiff pob cleient ei gefnogi i gydymffurfio â'r telerau ac amodau a rheolau'r tŷ, sy'n cynnwys gofyniad i ymgysylltu â darparu cymorth.

Mae'r prosiect yn ddiogel a chroesawgar gyda staff yn defnyddio dulliau seicolegol gwybodus. Mae hyn yn cynnwys darparu diwylliant arloesol lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel i wneud camgymeriadau, yn gallu dweud beth sydd ar eu meddwl ac yn gallu ymddiried mewn eraill.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Jeff Gooch.**

**Ffôn: 01443 805879**

**E-bost: Jeff.Gooch@poblgroup.co.uk**





PLATFFORM

## Rhos Dyfed, Aberdâr

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth uwch**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (7 lle)**

Mae'r cynllun tai â chymorth yma ar gyfer dynion a menywod sengl sydd â phroblemau iechyd meddwl ac sy'n wynebu'r risg o fod yn ddigartref, ond y mae'n bosib hefyd eu bod yn profi un neu ragor o ystod o gyflyrau neu faterion eraill, e.e. camddefnyddio sylweddau, trawma sy'n deillio o gam-drin domestig, diweithdra, ac ati. Mae gyda'r cynllun 5 fflat unigol (sy'n eiddo i Gymdeithas Tai Newydd). Mae lle cymunedol hefyd i'r unigolion sy'n byw yno gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau, gan gynnwys sesiynau 'Siop Bob Dim'. Caiff fflat ei chynnig i bob unigolyn ar sail cyfnod o 12 mis.

Bydd gydag unigolion sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma anghenion cymorth uwch a byddan nhw angen y cymorth sydd ar gael i ddatblygu'r sgiliau i fyw'n annibynnol. Mae disgwyl i'r cymorth leihau dros amser wrth i unigolion ddod yn fwy annibynnol. Bydd angen i'r rheiny sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma fod â'r gallu i ddod yn annibynnol yn y pen draw.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch ag Andrew Evans.**

**Rhif ffôn: 01685 875508 neu 07866 420219**

**E-bost:** AndrewEvans@platfform.org

## Gwasanaethau Llety â Chymorth 9 tan 5 (Canolig)

**Cynllun Stryd Dover, Aberpennar**

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **Dydd Llun - Dydd Sul, yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau - oriau hyblyg**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth canolig**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (4 lle)**

Mae'r cynllun tai â chymorth yma'n benodol ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion iechyd meddwl. Mae'n debygol y bydd unigolion ond yn aros rhwng 6 a 12 mis yn ddibynnol ar eu hanghenion.
Mae 4 ystafell wely unigol ar gael sy'n cynnwys ystafell fyw/ystafell wely gyda chegin fach ac ystafell ymolchi. Mae ystafell golchi dillad. Does dim ystafelloedd sy'n cael eu rhannu neu ystafelloedd cymunedol eraill. Mae grisiau i brif fynedfa'r adeilad.

Bydd gydag unigolion sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma anghenion cymorth canolig a byddan nhw angen y cymorth sydd ar gael i ddatblygu'r sgiliau i fyw'n annibynnol. Mae disgwyl i'r cymorth leihau dros amser wrth i unigolion ddod yn fwy annibynnol.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch ag Andrew Evans.**

**Rhif ffôn: 01685 875508 neu 07866 420219**

**E-bost:** AndrewEvans@platfform.org

PLATFFORM

## Cynllun Glenbói, Aberpennar

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **Dydd Llun - Dydd Sul, yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau - oriau hyblyg**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth canolig**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (4 lle)**

Mae'r cynllun tai â chymorth yma'n benodol ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion iechyd meddwl. Mae'n debygol y bydd unigolion ond yn aros rhwng 6 a 12 mis yn ddibynnol ar eu hanghenion.
Mae 4 fflat unigol un ystafell wely ar gael. Does dim ardaloedd sy'n cael eu rhannu nac ardaloedd cymunedol.

Bydd gydag unigolion sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma anghenion cymorth canolig a byddan nhw angen y cymorth sydd ar gael i ddatblygu'r sgiliau i fyw'n annibynnol. Mae disgwyl i'r cymorth leihau dros amser wrth i unigolion ddod yn fwy annibynnol.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch ag Andrew Evans.**

**Rhif ffôn:** **01685 875508 neu 07866 420219**

**E-bost:** AndrewEvans@platfform.org





## Cynllun Ffordd Merthyr, Pontypridd

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **Dydd Llun - Dydd Sul, yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau - oriau hyblyg**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth canolig**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (5 lle)**

Mae'r cynllun tai â chymorth yma'n benodol ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion iechyd meddwl. Mae'n debygol y bydd unigolion ond yn aros rhwng 6 a 12 mis yn ddibynnol ar eu hanghenion. Dyma dŷ sy'n cael ei rannu ar gyfer 5 person. Mae gyda phob unigolyn ei ystafell ei hun ond mae pawb yn rhannu'r lolfa gymunedol, yr ardal fwyta, y gegin a'r ystafell ymolchi.

Bydd gydag unigolion sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma anghenion cymorth canolig a byddan nhw angen y cymorth sydd ar gael i ddatblygu'r sgiliau i fyw'n annibynnol. Mae disgwyl i'r cymorth leihau dros amser wrth i unigolion ddod yn fwy annibynnol.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Hannah Davies**

**Rhif ffôn:** **01443 406463**

**E-bost:** Hannah.Davies@hafod.org.uk





### Cynllun Stryd Llewellyn, Pentre

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **Dydd Llun - Dydd Sul, yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau - oriau hyblyg**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth canolig**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (4 lle)**

Mae'r cynllun tai â chymorth yma'n benodol ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion iechyd meddwl. Mae'n debygol y bydd unigolion ond yn aros rhwng 6 a 12 mis yn ddibynnol ar eu hanghenion. Dyma dŷ sy'n cael ei rannu ar gyfer 4 person. Mae gyda phob unigolyn ei ystafell ei hun ond mae pawb yn rhannu'r lolfa gymunedol, yr ardal fwyta, y gegin a'r ystafell ymolchi.

Bydd gydag unigolion sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma anghenion cymorth canolig a byddan nhw angen y cymorth sydd ar gael i ddatblygu'r sgiliau i fyw'n annibynnol. Mae disgwyl i'r cymorth leihau dros amser wrth i unigolion ddod yn fwy annibynnol.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Hannah Davies**

**Rhif ffôn:** **01443 406463**

**E-bost:** Hannah.Davies@hafod.org.uk





## Llety â Chymorth/Gwasgaredig Lefel Isel

PLATFFORM

### Llety Gwasgaredig

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **Cymorth ar gael ar adegau wedi'u cytuno drwy gydol yr wythnos yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth isel**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (8 lle)**

Mae tai â chymorth 'symud ymlaen' yn benodol ar gyfer unigolion ag anghenion iechyd meddwl.

Mae 9 uned un ystafell wely yn ardal Taf-elái gan gynnwys Tonysguboriau a Rhydfelen.

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r cynllun yma'n addas i'r rheiny sy'n symud ymlaen o lety â chymorth lefel uwch ond sydd ddim eto'n barod i fyw'n annibynnol. Mae'n debygol y bydd unigolion ond yn aros rhwng 6 a 12 mis yn ddibynnol ar eu hanghenion.

Mae'r cynllun yma'n addas ar gyfer y rheiny ag anghenion cymorth is. Mae cymorth ar gael a fydd yn lleihau dros amser.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch ag Andrew Evans**

**Rhif ffôn: 01685 875508 neu 07866 420219**

**E-bost:** AndrewEvans@platfform.org

## Cynllun Cwrt Elias, Tonpentre

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **Cymorth ar gael ar adegau wedi'u cytuno drwy gydol yr wythnos yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth isel**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (7 lle)**

Mae 7 fflat unigol un ystafell wely ar gael yng Nghwrt Elias.

Dyma gynllun llety â chymorth 'symud ymlaen' ar gyfer unigolion ag anghenion iechyd meddwl. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r cynllun yma'n addas i'r rheiny sy'n symud ymlaen o lety â chymorth lefel uwch ond sydd ddim eto'n barod i fyw'n annibynnol. Mae'n debygol y bydd unigolion ond yn aros rhwng 6 a 12 mis yn ddibynnol ar eu hanghenion.

Mae'r cynllun yma'n addas ar gyfer y rheiny ag anghenion cymorth is, ond bydd hyn yn lleihau dros amser.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Jane Kempsell.**

**Rhif ffôn:** **01443 438280**

**E-bost:** Jane.kempsell@poblgroup.co.uk





# Gwasanaethau Iechyd Meddwl/Anghenion Cymhleth eraill

## Gwasanaeth Allgymorth Tai Arbenigol - Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau (Rhanbarthol)

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **Caiff cymorth ei ddarparu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd wedi'u lleoli mewn hosteli, llety gwely a brecwast a'r rheiny sy'n derbyn cymorth gan Gynllun Tai yn Gyntaf RhCT**

**Lefel y Cymorth:** **bydd hyn yn amrywio ar sail anghenion yr unigolyn**

**Ar gael drwy:** **Cyswllt uniongyrchol â'r Garfan Allgymorth Arbenigol**

Mae'r Garfan Iechyd Arbenigol Rhanbarthol yn darparu gwasanaeth allgymorth aml-asiantaeth arbenigol i unigolion digartref sydd â mater sy'n ymwneud â'u hiechyd. Mae'r garfan yn cynnwys gweithwyr cymorth, nyrsys ac arbenigwyr ym maes trawma. Maen nhw'n gweithio gydag unigolion sydd wedi'u lleoli ym mhob math o lety dros dro gan gynnwys hosteli a llety gwely a brecwast, yn ogystal ag unigolion sy'n derbyn cymorth gan gynlluniau Tai yn Gyntaf yn RhCT, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Mae'r garfan yn helpu unigolion sydd angen ymyrraeth gofal iechyd ond sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau traddodiadol.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnwys pedwar Seicotherapydd wedi'u hyfforddi ym maes trawma.

Mae modd derbyn atgyfeiriadau dros y ffôn neu drwy e-bost.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, e-bostiwch Natasha Jones (natasha.jones2@rctcbc.gov.uk)**

**Manylion cyswllt:**

**Rhif ffôn: 01443 809446 (neu 01443 809444)**

**E-bost: AllgymorthArbenigol@rctcbc.gov.uk**

PLATFFORM

## Cynllun Iechyd Meddwl (Platfform)

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **Cymorth wedi'i ddarparu yn y llety**

**Lefel y Cymorth:** **Yn addas ar gyfer unigolion ag anghenion iechyd meddwl**

**Ar gael drwy:** **Carfan Materion Tai**

Mae gyda Chynllun Iechyd Meddwl Platfform garfan o dri gweithiwr sy'n darparu gwasanaeth di-dor i'r rheiny sydd ag anghenion iechyd meddwl ac sy'n profi anawsterau o ran materion tai. Mae'r garfan wedi'i lleoli yn y Garfan Materion Tai yn Nhŷ Sardis, Pontypridd. **Mae'r gwasanaeth yma bellach yn cynnwys cymorth gyda'r nos ac ar benwythnosau.** Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyd-weithio ag Uned Iechyd Meddwl Ysbyty Brenhinol Morgannwg i ddarparu cyngor a chymorth i unrhyw un sydd wedi'i roi ar ward ac sydd angen help â materion tai**.**

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch ag Andrew Evans.**

**Manylion cyswllt:**

**Rhif ffôn: 01685 875508 neu 07866 420219**

**E-bost: AndrewEvans@platfform.org**

## Llety â Chymorth 24 Awr (Uchel)

### Cynllun Tŷ'r Castell, Trefforest

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth uwch**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (5 lle)**

Mae'r cynllun tai â chymorth yma'n benodol ar gyfer y rheiny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau sydd hefyd yn droseddwyr. Mae'n debygol y bydd unigolion ond yn aros rhwng 6 a 12 mis yn ddibynnol ar eu hanghenion. Mae Tŷ'r Castell yn cynnwys 5 fflat unigol gydag ystafell weithgareddau gymunedol. Bydd gydag unigolion sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma anghenion cymorth lefel uwch a byddan nhw angen y cymorth sydd ar gael i ddatblygu'r sgiliau i fyw'n annibynnol. Mae disgwyl i'r cymorth leihau dros amser wrth i unigolion ddod yn fwy annibynnol.

Mae 2 uned tai â chymorth ym Mhontypridd yn rhan o'r cynllun hefyd. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r cynllun yma'n addas i'r rheiny sy'n symud ymlaen o lety â chymorth lefel uwch ond sydd ddim eto'n barod i fyw'n annibynnol. Mae'r cymorth ar gael ar adegau wedi'u cytuno drwy gydol yr wythnos yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn. Mae'r cynllun yma'n addas ar gyfer y rheiny ag anghenion cymorth is. Bydd y cymorth yn lleihau dros amser.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch ag Adele Dean.**

**Rhif ffôn:** **01443 805870**

**E-bost:** Adele.Dean@poblgroup.co.uk

## Llety â Chymorth 24 Awr (Uchel)

### Cynllun 'The Old Bakery', Trecynon (Llety 'symud ymlaen' o'r Grange)

**Grŵp Oedran:** **16 – 21**

**Cymorth ar gael:** **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth uwch**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (5 lle)**

Mae 'The Old Bakery' yn llety â chymorth 5 gwely ar gyfer pobl ifainc ddigartref a'r rheiny sy'n gadael gofal. Mae gyda phob person ifanc ei fflat unigol ei hun.

Bydd disgwyl i unigolion gymryd rhan mewn sesiynau cymorth wedi'u trefnu ac mae disgwyl iddyn nhw gymryd rhan mewn gweithdai, gweithgareddau ac achlysuron rheolaidd i'w helpu i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol.

Hyd y gwasanaeth yw hyd at 12 mis yn ddibynnol ar anghenion unigolion. Bydd y bobl ifainc sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn derbyn lefel uchel o gymorth i sicrhau eu bod yn datblygu'n unigolion annibynnol. Bydd lefel y cymorth yn lleihau dros amser wrth i unigolion ddod yn fwy annibynnol.

Mae un o'r 5 uned yn addas ar gyfer unigolion sydd ag anghenion llety wedi'i addasu.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, ffoniwch Andrea Davies (07796724077) a Sam Taylor (07770029226).**

**Rhif ffôn:** **01685 637101**

**E-bost:** **Andrea.Davies@poblgroup.co.uk neu Sam.Taylor@poblgroup.co.uk**





stori

Start a new chapter
Dechrau pennod newydd

## Pen-y-Graig a Chilfynydd

| | |
|---|---|
| **Grŵp Oedran:** | **16 - 24** |
| **Cymorth ar gael:** | **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos** |
| **Lefel y Cymorth:** | **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth uwch** |
| **Ar gael drwy:** | **Un Man Cyswllt (6 lle - 3 i fenywod, 3 i ddynion)** |

Mae'r cynllun tai â chymorth yma'n benodol ar gyfer pobl ifainc sy'n agored i niwed a'r rheiny sy'n gadael gofal. Mae'r cynllun yma'n cynnwys dau dŷ wedi'u rhannu ar gyfer pobl rhwng 16 a 21 (neu 24?) oed. Bydd disgwyl i unigolion gymryd rhan mewn sesiynau cymorth wedi'u trefnu ac mae disgwyl iddyn nhw gymryd rhan mewn gweithdai, gweithgareddau ac achlysuron rheolaidd i'w helpu i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol.

Mae un tŷ ar gyfer tair menyw. Yn y tŷ mae tair ystafell wely unigol gyda lolfa gymunedol, cegin ac ystafell ymolchi sy'n cael eu rhannu. Mae'r tŷ arall ym Mhen-y-graig ar gyfer tri dyn. Yn y tŷ mae tair ystafell wely unigol gyda lolfa gymunedol, cegin ac ystafell ymolchi sy'n cael eu rhannu.

Hyd y gwasanaeth yw hyd at 12 mis yn ddibynnol ar anghenion unigolion. Bydd y bobl ifainc sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn derbyn lefel uchel o gymorth i sicrhau eu bod yn datblygu'n unigolion annibynnol. Bydd lefel y cymorth yn lleihau dros amser wrth i unigolion ddod yn fwy annibynnol.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Kristyn Rosser.**

**Rhif ffôn ar gyfer Cilfynydd:** **01443 407250**
**Rhif ffôn ar gyfer Pen-y-graig:** **01443 423208**

**E-bost:** Kristyn.Rosser@storicymru.org.uk



stori

Start a new chapter
Dechrau pennod newydd

**Stryd Hughes, Tonypandy ** Newydd ar gyfer 2024****

**Grŵp Oedran:** **16 – 21**

**Cymorth ar gael:** **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth lefel uwch**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (4 lle)**

Mae'r cynllun tai â chymorth yma ar gyfer pobl ifainc a phobl ifainc sy'n gadael gofal sydd ag anghenion cymorth uwch. Mae'r datblygiad newydd yma'n cynnig pum fflat unigol ar gyfer unigolion rhwng 16 ac 21 oed. Bydd disgwyl i unigolion gymryd rhan mewn sesiynau cymorth wedi'u trefnu ac mae disgwyl iddyn nhw gymryd rhan mewn gweithdai, gweithgareddau ac achlysuron rheolaidd i'w helpu i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol.

Hyd y gwasanaeth yw hyd at 12 mis yn ddibynnol ar anghenion unigolion. Bydd y bobl ifainc sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn derbyn lefel uchel o gymorth i sicrhau bod eu sgiliau byw'n annibynnol yn datblygu. Bydd y lefel yma o gymorth yn lleihau dros amser wrth i unigolion ddod yn fwy annibynnol.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Kristyn Rosser.**

**E-bost:** Kristyn.Rosser@storicymru.org.uk







## Cynllun Tŷ Rhondda, Tonypandy

| | |
|---|---|
| **Grŵp Oedran:** | **16 – 21** |
| **Cymorth ar gael:** | **24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos** |
| **Lefel y Cymorth:** | **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth uwch** |
| **Ar gael drwy:** | **Un Man Cyswllt (3 lle ac 1 ystafell mewn argyfwng)** |

Mae'r cynllun tai â chymorth yma'n benodol ar gyfer pobl ifainc sy'n agored i niwed a phobl ifainc sy'n gadael gofal. Mae'n debygol y bydd unigolion ond yn aros rhwng 6 a 12 mis yn ddibynnol ar eu hanghenion.

Mae Tŷ Rhondda yn cynnwys 3 fflat unigol gydag ystafell weithgareddau/lolfa gymunedol. Bydd gydag unigolion sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma anghenion cymorth lefel uwch a byddan nhw angen y cymorth sydd ar gael i ddatblygu'r sgiliau i fyw'n annibynnol. Mae disgwyl i'r cymorth leihau dros amser wrth i unigolion ddod yn fwy annibynnol.

Mae yna hefyd ystafell mewn argyfwng unigol ar gyfer arosiadau byr. Mae modd cael mynediad ati drwy'r Garfan Materion Tai. Mae modd defnyddio'r ystafell yn llety dros dro i unigolion ifanc sydd angen rhywfaint o gymorth ychwanegol.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Matthew O'Leary.**

**Rhif ffôn: 01443 432260**

**E-bost: TyRhondda@llamau.org.uk neu** MatthewOLeary@llamau.org.uk

# Llety â Chymorth Lefel Isel

stori
Start a new chapter
Dechrau pennod newydd

### Cynllun Bridget, Tai â Chymorth Gwasgaredig

**Grŵp Oedran:** **16 - 24**

**Cymorth ar gael:** **Cymorth ar gael ar adegau wedi'u cytuno drwy gydol yr wythnos yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth is**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (6 lle)**

Mae'r cynllun llety yma'n benodol ar gyfer pobl ifainc sy'n gadael gofal. Mae llety dwy, tair a phedair ystafell wely unigol ar gael yn ardal Taf-elái.

Bydd unigolion ond yn aros rhwng 6 a 12 mis yn ddibynnol ar eu hanghenion.

Bydd y cynllun yn darparu cymorth i bob tenant i helpu i nodi eu hanghenion, eu disgwyliadau a'u dyheadau. Bydd gydag unigolion sy'n rhan o'r cynllun yr opsiwn i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau wedi'u cynllunio. Mae'r gweithgareddau'n helpu unigolion i ddatblygu'r sgiliau y bydd eu hangen arnyn nhw i fyw'n annibynnol, dod o hyd i gartref ac edrych ar ei ôl.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Kristyn Rosser.**

**E-bost:** Kristyn.Rosser@storicymru.org.uk

Llamau

Imagine a World Without Homelessness

## Cynllun Stryd Dunraven, Tonypandy

**Grŵp Oedran:** **16 - 24**

**Cymorth ar gael:** **Dydd Llun - Dydd Sul, yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau - oriau hyblyg**

**Lefel y Cymorth:** **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth is**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt (3 lle)**

Mae 3 fflat unigol 1 ystafell wely ar gael.

Does dim ardaloedd cymunedol neu ardaloedd sy'n cael eu rhannu, er bod modd i unigolion sy'n rhan o'r cynllun gael mynediad at yr ystafell weithgareddau yng nghynllun Tŷ Rhondda. Mae'r cynllun yma'n cynnig llety 'symud ymlaen' i bobl ifainc. Mae'n debygol y bydd unigolion ond yn aros rhwng 6 a 12 mis yn ddibynnol ar eu hanghenion.

Mae'r cynllun yma'n addas ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion cymorth is, ond mae disgwyl y byddai angen mwy o gymorth ar unigolion wrth symud i mewn am y tro cyntaf, ond bydd y cymorth yma'n lleihau dros amser.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Matthew O'Leary.**

**Rhif ffôn: 01443 432260**

**E-bost: TyRhondda@llamau.org.uk neu** MatthewOLeary@llamau.org.uk





# Gwasanaethau Eraill i Bobl Ifainc

Llamau

Imagine a World Without Homelessness

## Gwasanaeth Canoli i Deuluoedd

| | |
|---|---|
| **Grŵp oedran:** | **Plant dros 14 oed a phobl ifainc dros 16 oed** |
| **Cymorth ar gael:** | **Cymorth ar gael ar adegau wedi'u cytuno drwy gydol yr wythnos yn ddibynnol ar anghenion** |
| **Lefel y Cymorth:** | **Yn addas ar gyfer plant/pobl ifainc** |
| **Ar gael drwy:** | **Atgyfeirio drwy'r Garfan Materion Tai** |

Mae'r cynllun, sy'n gweithio gyda phobl ifainc a'u teuluoedd, yn cael ei gyflenwi gan Llamau ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Bydd y cymorth ar gael yn cynnwys:

- Meithrin perthynas waith gadarnhaol yn yr ysgolion sydd wedi'u dewis a gwasanaethau statudol a thrydydd sector eraill yn RhCT. Sicrhau eich bod chi'n weladwy ac yn gyfeillgar i bob disgybl.
- Gweithio gyda phob parti mewn ffordd wybodus sy'n ystyried ac yn parchu seicoleg a thrawma, gan ddangos caredigrwydd a thosturi bob amser.
- Gweithio gyda phobl ifainc a'u rhieni/gwarcheidwaid, gan ddarparu cymorth wyneb yn wyneb a dros y ffôn i ddeall y materion sy'n eu hwynebu gartref a gweithio i ddod o hyd i atebion i'w galluogi i aros yn ddiogel yng nghartref y teulu.
- Cynnig ystod o wasanaethau gan gynnwys canoli i deuluoedd a chyngor i bobl ifainc a'u rhiant/gwarcheidwad a gwaith wyneb yn wyneb lle bo hynny'n briodol.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Samantha Thomas neu Joe Payne.**

**Manylion Cyswllt:**

**E-bost:** **SamanthaThomas2@llamau.org.uk** **neu** **JoePayne@llamau.org.uk**

**Ffôn:** **01685 874561 neu 07823 342355**

## Llety â Chymorth

**Grŵp Oedran:** **16 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **Cymorth ar gael drwy gydol yr wythnos yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn**

**Lefel y Cymorth:** **Yn addas ar gyfer pobl ifainc sy'n gadael gofal**

**Ar gael drwy:** **Carfan Ôl-ofal (Gwasanaethau i Blant)**

Mae'r cynllun yma'n darparu llety â chymorth i bobl ifainc sy'n gadael gofal sydd eisiau ac angen cymorth materion tai i'w helpu i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol. Mae'r cynllun yn cynnig cymorth wyneb yn wyneb wedi'i gynllunio a'i strwythuro i helpu pobl ifainc i:

- Dod o hyd i lety o ansawdd da, sicrhau bod modd ei gadw a/neu ei gynnal trwy raglen gymorth wedi'i strwythuro.
- Defnyddio eu cryfderau, sgiliau bywyd, galluoedd, rhwydweithiau cymdeithasol a systemau cymorth naturiol yn sail a gwella arnyn nhw.
- Cael mynediad at wasanaethau ac amwynderau yn y gymuned.
- Datblygu sgiliau llythrennedd a mynd i apwyntiadau.
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant.**

**Rhif ffôn:** **01443 425006**

## Cynllun Mentora 'Gadael Gofal'

**Grŵp Oedran:** **16 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **Cymorth ar gael drwy gydol yr wythnos yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn**

**Lefel y Cymorth:** **Yn addas ar gyfer pobl ifainc sydd â phrofiad o derbyn gofal**

**Ar gael drwy:** **Carfan Ôl-ofal (Gwasanaethau i Blant)**

Mae'r cynllun mentora yma'n darparu ystod o ofal i bobl ifainc sydd angen cyngor a chymorth ymarferol i gaffael sgiliau byw'n annibynnol angenrheidiol at y diben hwnnw ac ar gyfer cynnal eu tenantiaeth eu hunain. Bydd gweithiwr dynodedig penodol yn:

- Cyfrannu at Gynllun Llwybr y person ifanc/pobl ifainc a'u helpu i wella/magu hyder drwy roi'r sgiliau angenrheidiol iddyn nhw i'w helpu wrth bontio i fod yn oedolyn.
- Cynnig cymorth i fyw'n annibynnol, gan gynnwys cymorth gydag addysg a hyfforddiant, sicrhau'r incwm mwyaf, rheoli tenantiaeth a gweithgareddau cymdeithasol.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant**

**Rhif ffôn: 01443 425006**

## Gwasanaethau ar gyfer Teuluoedd Agored i Niwed

# Llety â Chymorth Lefel Isel

stori
Start a new chapter
Dechrau pennod newydd

### Tai â Chymorth Gwasgaredig i Deuluoedd

| | |
|---|---|
| **Grŵp Oedran:** | **18 oed a hŷn** |
| **Cymorth ar gael:** | **Cymorth ar gael ar adegau wedi'u cytuno drwy gydol yr wythnos yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn** |
| **Lefel y Cymorth:** | **Addas ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth canolig** |
| **Ar gael drwy:** | **Un Man Cyswllt** |

Mae'r cynllun yn cynnig cymorth i deuluoedd a menywod ifanc dros 18 oed. Mae'r cynllun yn cynnwys 6 uned deuluol gan gynnwys fflatiau a thai yng nghymunedau'r Beddau a Phen-y-graig.

Cynllun Cwm Rhondda - 4 uned. Mae Cwm Rhondda ar gyfer menywod sengl/rhieni sengl sy'n hŷn nag 18 oed a dynion sengl sy'n hŷn na 25 oed. Cynllun Beddau - 2 uned 18+ ar gyfer menywod sengl/rhieni sengl sy'n agored i niwed.

Mae'r cymorth ar gael ar adegau wedi'u cytuno drwy gydol yr wythnos yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn. Bydd gydag unigolion sy'n cael bod yn rhan o'r cynllun yma anghenion cymorth canolig a byddan nhw angen y cymorth sydd ar gael i ddatblygu'r sgiliau i fyw'n annibynnol. Mae disgwyl i'r cymorth leihau dros amser wrth i unigolion ddod yn fwy annibynnol.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Kristyn Rosser.**

**Rhif ffôn:** 01443 237015

**E-bost:** Kristyn.Rosser@storicymru.org.uk

## Gwasanaeth Cymorth fel y bo Angen yn yr Ardal Leol (RhCT)

### Cymorth fel y bo Angen

| | |
|---|---|
| **Grŵp Oedran:** | **16 oed a hŷn** |
| **Cymorth ar gael:** | **Cymorth yn eich cartref eich hun** |
| **Lefel y Cymorth:** | **Cam 1 - Atal ac Ymyrraeth Gynnar (3 mis)**<br>**Cam 2 - Cymorth fel y bo Angen Cyffredinol (3 mis ychwanegol)**<br>**Cam 3 - Cymorth Lefel Isel Parhaus** |
| **Ar gael drwy:** | **Un Man Cyswllt (870 o leoedd)** |

Rydyn ni'n cynnig gwasanaeth cymorth materion tai am ddim (Cymorth yn eich cartref eich hun) yn ardaloedd Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-Elái i bobl dros 16 oed i'w helpu i fyw yn eu cartrefi eu hunain waeth beth fo statws eu deiliadaeth.

Mae'r gwasanaeth yma yn helpu i atal digartrefedd trwy fagu hyder unigolion a'u helpu nhw gyda'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i fyw'n annibynnol a rheoli cartref yn llwyddiannus.
Mae modd i ni ddarparu cymorth gyda'r canlynol:

- Rheoli arian a budd-daliadau
- Atal digartrefedd
- Ymgartrefu mewn cartref a gwneud ffrindiau yn y gymdogaeth
- Trefnu apwyntiadau a manteisio ar wasanaethau defnyddiol eraill
- Llenwi ffurflenni, darllen post ac ysgrifennu llythyrau pwysig
- Manteisio ar gyfleoedd o ran hamdden, sgiliau a chyflogaeth
- Cymorth i aros yn annibynnol

**Sut mae'n gweithio?**
Byddwn ni'n ymweld â'r person yn ei gartref (neu mewn lleoliad wedi'i gytuno arno) i drafod ei anghenion cymorth a chytuno ar unrhyw nodau hoffai'r person eu cyflawni. Dyma gynllun cymorth sydd wedi'i deilwra i'r unigolyn. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Rydyn ni'n gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill i sicrhau bod modd i bobl fanteisio ar y gwasanaethau neu arbenigedd sydd eu hangen arnyn nhw o bosibl.

Bydd y gwasanaeth cymorth fel y bo angen yma'n cael ei gyflenwi gan gymdeithas tai **Hafod** yn ardal **Cwm Rhondda. Manylion cyswllt:**
**E-bost: rhonddasupportservice@hafod.org.uk**
**Rhif ffôn: 0800 024 8968**

Bydd y gwasanaeth cymorth fel y bo angen yma'n cael ei gyflenwi gan sefydliad **Hafod** yn ardal **Cwm Cynon. Manylion cyswllt:**
**E-bost: rhonddasupportservice@hafod.org.uk**
**Rhif ffôn: 01685 874561**

Bydd y gwasanaeth cymorth fel y bo angen yma'n cael ei gyflenwi gan sefydliad **Trivallis** yn ardal **Taf-elái.** Manylion cyswllt:
**E-bost: safe@trivallis.co.uk**
**Rhif ffôn: 03000 030 888**

**Bellach mae gyda phob ardal Wasanaeth Cymorth y Sector Rhentu Preifat penodol ar gyfer Landlordiaid:**

Trivallis.

## Cynllun GRAMO

**Grŵp Oedran:** **Ar gael i bawb**

**Cymorth ar gael:** **Hyfforddiant Cyn-Denantiaeth**

**Ar gael drwy:** **Pob un Llety â Chymorth**

Mae cynllun Paratoi a Symud Ymlaen (GRAMO) yn gynllun cyn-denantiaeth, sydd wedi'i ariannu gan y Grant Cymorth Tai. Caiff ei gyflenwi ar y cyd â Trivallis. Mae'n cynnig gwybodaeth am bob agwedd ar gael tenantiaeth a bod yn denant da.

Mae'r cynllun yn helpu unigolion sydd wedi'u lleoli yn ein hosteli a'n llety â chymorth, pobl ifainc sy'n gadael gofal a'r rheiny sy'n gadael lleoliadau Gofal i Oedolion arbenigol.

Caiff ei gyflenwi drwy waith grŵp a sesiynau wyneb yn wyneb sydd hefyd yn cysylltu â chynlluniau cymorth os bydd angen rhagor o gymorth ar unigolyn. Mae hyn hefyd yn rhan o'r broses 'symud ymlaen' ar gyfer ein holl leoliadau llety â chymorth.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Dorian Griffiths.**

**Rhif ffôn:** **07458 090607**

**E-bost:** Dorian.griffiths@trivallis.co.uk

## Cynllun Dementia

Cwm Taf Care & Repair

### Cynllun Dementia Rhanbarthol Merthyr Tudful a RhCT

**Grŵp Oedran:** **Dim cyfyngiad oedran**

**Cymorth ar gael:** **Cymorth yn eich cartref eich hun**

**Lefel y Cymorth:** **Yn addas ar gyfer unigolion â Dementia**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt**

Mae Gofal a Thrwsio Cwm Taf yn darparu gwasanaeth pwrpasol ar y cyd â sefydliadau lleol a all helpu gydag anghenion tai pobl â Dementia, naill ai drwy atgyweirio, cynnal neu addasu eu cartrefi. Bydd y gwasanaeth yn helpu unigolion â Dementia a'u cynhalwyr gydag unrhyw hawliau budd-daliadau neu atgyweiriadau i'w tai, neu'n helpu'r rheiny sydd efallai wedi cwympo gartref, gan leihau'r amser ymateb ar gyfer unrhyw waith atgyweirio brys angenrheidiol i gartref y person â Dementia.

Byddan nhw hefyd yn ceisio sicrhau bod gyda'r rheiny â Dementia a'u cynhalwyr fynediad at wybodaeth fanwl am rwydwaith cymorth yr unigolyn â Dementia i'w gwneud hi'n haws i ymateb i sefyllfaoedd argyfwng posibl e.e. math o foeler gwres canolog ac ati, a sicrhau bod gyda'r rheiny â Dementia a'u cynhalwyr fynediad at wybodaeth fanwl am faterion tai lle bynnag y bo hynny'n briodol, efallai pan fydd yr unigolyn yn cael diagnosis gyntaf.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch ag Adele Phibben.**

**Rhif ffôn:** **01443 755696**

**E-bost:** **aphibben@cwmtafcr.org.uk**

# Gwasanaethau Atal Digartrefedd Eraill (wedi'u lleoli yn Nhŷ Sardis)

**Y Gwasanaeth Materion Tai**

Os ydych mewn perygl o fod yn ddigartref, mae cyngor a chymorth ar gael gan y Gwasanaeth Materion Tai yn Nhŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU.

- Ydych chi'n ddigartref neu dan fygythiad digartrefedd?
- A yw'ch cartref presennol yn anaddas ar gyfer eich anghenion?
- Hoffech chi wybod rhagor am eich opsiynau tai?

Mae'r Gwasanaeth Materion Tai ar gael rhwng 9am a 5pm ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener, a rhwng 9am ac 1pm ddydd Iau.

**Manylion Cyswllt:**

Rhif ffôn yn ystod oriau swyddfa (9am - 5pm dydd Llun i ddydd Gwener): 01443 495188

Rhif ffôn y tu allan i oriau'r swyddfa (mewn achos o argyfwng yn unig): 01443 425011

E-bost: digartrefedd@rctcbc.gov.uk

## Carfan Asesu a Chymorth Digartrefedd

Ar ôl derbyn yr atgyfeiriad gan y Swyddog Materion Tai, bydd Swyddog Asesu HAST yn cynnal asesiad wyneb yn wyneb. Bydd yr asesiad yma'n cynnwys cwblhau adran 2 o'r '*Asesiad Integredig o Ddigartrefedd a Llesiant*' Ffurf. Bydd y Swyddog Asesu yn diweddaru PHP yr unigolyn i adlewyrchu canlyniad yr asesiad.

**Nodau'r Asesiad:**
-Pennu llwybr symud ymlaen a chymorth i unigolyn
-Nodi unrhyw faterion diogelu/cefnogi uniongyrchol a chyflwyno atgyfeiriadau priodol (e.e. atgyfeiriad i'r Garfan Allgymorth Tai)

## Y Garfan Cymorth Ailsefydlu

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**
**Cymorth ar gael:** **Cymorth ar gael ar adegau wedi'u cytuno drwy gydol yr wythnos yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn**

**Lefel y Cymorth:** **Yn addas ar gyfer unigolion sy'n wynebu'r risg o fod yn ddigartref neu unigolion sydd mewn llety dros dro**

**Ar gael drwy:** **Caiff atgyfeiriadau eu gwneud drwy'r Garfan Materion Tai**

Mae'r Garfan Cymorth Ailsefydlu yn cyflenwi cymorth ac ymyrraeth wedi'u targedu i unigolion sy'n cael eu lleoli mewn llety dros dro, gan gynnwys tai sy'n cael eu rhannu ac eiddo'r Cynllun Prydlesu wedi'i reoli gan Hafod. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth gweithwyr allweddol i unigolion sydd wedi'u nodi'n ddigartref neu sy'n wynebu'r risg o fod yn ddigartref. Bydd darparwr y gwasanaeth yn dibynnu ar lety'r unigolyn. Mae modd i'r cymorth gynnwys:
Problemau ariannol fel ôl-ddyledion rhent, materion budd-dal lles, ôl-ddyledion Treth y Cyngor, a dyledion materion tai eraill. Bydd hyn yn cynnwys atgyfeirio i brosiect Cymorth Ariannol Swyddfa Cyngor ar Bopeth Pontypridd.
Risg bosibl o golli llety oherwydd bod yr unigolyn wedi mynd i'r ysbyty, cyflwr eiddo gwael, gorgasglu, ymddygiad gwrthgymdeithasol.
Digartrefedd neu ddigartrefedd posibl a'r angen i ddod o hyd i lety arall.

**Mae'r garfan yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am – 5pm**
**Hoffech chi ragor o wybodaeth? Croeso ichi gysylltu â'r garfan:**
**E-bost**: HAST@rctcbc.gov.uk

## Gwasanaethau Atal Digartrefedd Eraill (gwasanaethau ychwanegol, ddim yn Nhŷ Sardis)

### Y Cynllun Ariannol

| | |
|---|---|
| **Grŵp Oedran:** | **Ar gael i bawb** |
| **Cymorth ar gael:** | **Cymorth yn eich cartref eich hun** |
| **Lefel y Cymorth:** | **Cymorth i unigolion â phroblemau ariannol** |
| **Ar gael drwy:** | **Gweithwyr cymorth a'r Garfan Materion Tai** |

Mae'r Cynllun Ariannol wedi'i ddarparu gan Swyddfa Cyngor ar Bopeth Pontypridd ac mae'n cynnig cymorth arbenigol i helpu gyda chynyddu budd-daliadau, apeliadau PIP a materion budd-daliadau lles eraill. Mae'r cynllun yn cynnwys:

- Gweithio'n hyblyg i ddarparu gwasanaeth cymorth ariannol tymor byr i unigolion sydd efallai'n agored i sawl math o niwed.
- Help i wneud cais am grantiau a budd-daliadau i atal digartrefedd neu gynorthwyo gyda symud i lety newydd.
- Cyfrannu at gyfarfodydd gydag asiantaethau cymorth ac atgyfeirio eraill i ddiwallu anghenion trigolion a gofynion y swydd.
- Cefnogi datblygiad CBSRhCT o ddull digidol o gyfathrebu a darparu gwasanaethau.
- Cynorthwyo defnyddwyr y gwasanaeth i gael Credyd Cynhwysol a chynorthwyo gyda'r trosglwyddiad i Gredyd Cynhwysol.
- Gweithio gydag asiantaethau a charfanau eraill i hwyluso gweithio ar y cyd er budd unigolion gan gynnwys darparu ffyrdd o gynyddu incwm, cyllidebu a chyngor ar fancio.

**Caiff unigolion eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth yma drwy'r Garfan Materion Tai neu os yw'r unigolion yn derbyn gwasanaeth cymorth materion tai sydd wedi'i ariannu gan y Gwasanaeth Cymorth Grant Tai.**

Trivallis.



## Cynllun MAGPIE

**Grŵp Oedran:** **Dim cyfyngiad oedran**

**Cymorth ar gael:** **Tenantiaid sy'n byw mewn Tai Cymdeithasol (Cynllun Peilot)**

**Lefel y Cymorth:** **Yn addas ar gyfer unigolion sy'n casglu neu'n cronni sbwriel yn eu cartrefi.**

**Ar gael drwy:** **Atgyfeiriad uniongyrchol i Trivallis**

Mae Cynllun MAGPIE yn darparu cyngor a chymorth i denantiaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n byw yn RhCT ac sy'n casglu eitemau ac yn ei chael hi'n anodd cael gwared arnyn nhw, gan arwain at gartref blêr a diffyg lle yno. Mae gyda Trivallis gydlynydd arbenigol sy'n darparu cymorth wyneb yn wyneb er mwyn:

- Helpu'r tenant i ddeall eu meddyliau, eu teimladau a'u hymddygiadau tuag at eiddo
- Helpu i ysgogi'r tenant i roi trefn ar y cartref a symud eitemau oddi yno

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Sarah Roderick neu Claire Overd.**

**Manylion Cyswllt:**

**Rhif ffôn:** **03000 030888**

**E-bost:** **Steps.Referrals@trivallis.co.uk**

**Ffurflen atgyfeirio: www.trivallis.co.uk**

Kaleidoscope
est.1968

## Cynllun Troseddwyr sydd wedi bod yn y Carchar (POP)

| | |
|---|---|
| **Grŵp oedran:** | **18 oed a hŷn** |
| **Cymorth ar gael:** | **Cymorth yn y Carchar a'r Gymuned** |
| **Lefel y Cymorth:** | **Yn addas ar gyfer troseddwyr tymor byr** |
| **Ar gael drwy:** | **Dim ond y Gwasanaeth Prawf sy'n cael gwneud atgyfeiriadau, a hynny drwy'r Llwybr Atgyfeirio newydd i'r Rheiny sy'n Gadael y Carchar** |

Mae'r cynllun yma wedi'i gyflenwi gan Kaleidoscope ac mae'n darparu ymyriadau cymorth i droseddwyr amldro sydd wedi treulio cyfnodau byr yn y carchar (y rheiny sydd wedi'u dedfrydu i lai na 12 mis). Dim ond y Gwasanaeth Prawf sy'n cael gwneud atgyfeiriadau, a hynny drwy'r Llwybr Atgyfeirio i'r Rheiny sy'n Gadael y Carchar. Yn RhCT, mae mwyafrif y rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ddynion, ac maen nhw'n derbyn cymorth yn y carchar, wrth adael y carchar ac yn y gymuned, a hynny mewn ystod o feysydd, gan gynnwys:

- Llety
- Camddefnyddio Sylweddau
- Sgiliau Meddwl
- Cyflogaeth, Addysg/Hyfforddiant
- Agwedd
- Rheoli Arian
- Rheoli Emosiynau
- Ffordd o fyw/Y rheiny maen nhw'n cymdeithasu a chreu perthynas â nhw
- Sgiliau Rhyngbersonol

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch ag Emma Clarke.**

**Manylion cyswllt:**
**Rhif ffôn:** 01443 548080
**E-bost:** askPOP@kaleidoscopeproject.org.uk

## Cynllun Allgymorth Grymusol Tai yn Gyntaf

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **Cymorth ar gael rownd y rîl**

**Lefel y Cymorth:** **Yn addas ar gyfer unigolion/teuluoedd agored i niwed, digartref neu'r rheiny ag anghenion cymhleth**

**Ar gael drwy:** **Caiff pob atgyfeiriad ei wneud drwy'r Garfan Materion Tai, neu'n uniongyrchol i'r cynllun drwy unigolyn, Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf**

Mae Tai yn Gyntaf yn ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n ceisio diwallu anghenion penodol pobl ddigartref sengl sydd ag anghenion cymhleth, neu sy'n wynebu'r risg o golli eu tenantiaeth tai cymdeithasol, a hynny er mwyn eu helpu i atal digartrefedd a sicrhau eu bod yn integreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned yn y ffordd orau bosib.

**Y Garfan/Gweithwyr Allgymorth Grymusol:**
Mae gweithwyr yn darparu pecynnau cymorth dwys rownd y rîl i helpu unigolion ag anghenion cymhleth, a hynny drwy gynnig gwasanaethau cymorth hyblyg ac arloesol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Helpu i symud pobl o'r strydoedd i lety diogel os mai dyna sydd ei angen arnyn nhw.
- Helpu pobl sy'n ddigartref/cysgu ar y stryd i gael mynediad at wasanaethau iechyd.
- Darparu gwasanaeth allgymorth i deuluoedd sy'n cael trafferth mewn tenantiaethau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- Casglu gwybodaeth ynghyd am gysgu ar y stryd ac ymgynghori â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i nodi diffygion yn y ddarpariaeth a helpu i gyfeirio'r gwasanaeth.
- Nodi lle mae diffygion yn y cymorth a chynnig atebion effeithiol.
- Llenwi'r holiaduron cysgu ar y stryd drwy gydol y cynllun er mwyn llywio'r adroddiad diwedd blwyddyn a chasgliadau a gwybodaeth ystadegol am ddata cysgu ar y stryd i lywio trefniadau strategaeth a chomisiynu lleol.
- Ymgynghori â charfanau staff ac unigolion i chwilio am syniadau a'u cynnwys mewn unrhyw ddull gwasanaeth newydd.

Mae hyd y cymorth wedi'i bennu gan amgylchiadau ac anghenion cymorth parhaus yr unigolyn ond bydd yn parhau cyhyd ag y bo angen.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Kevin O'Connell.**
**E-bost:** HousingFirstScheme@groups.poblgroup.co.uk

## Cymorth fel y bo Angen MAPPA

**Grŵp Oedran:** **18 oed a hŷn**

**Cymorth ar gael:** **Cymorth hyblyg ar gael**

**Lefel y Cymorth:** **MAPPA (Troseddwyr Risg Uchel)**

**Ar gael drwy:** **Un Man Cyswllt**

Mae'r cynllun yma'n darparu unedau cymorth fel y bo angen i droseddwyr risg uchel yn rhan o drefniadau aml-asiantaeth mewn perthynas â diogelu'r cyhoedd. Mae gweithiwr y cynllun yn darparu cymorth i atal defnyddwyr rhag digartrefedd a/neu golli eu cartref drwy weithio gyda nhw i nodi unrhyw faterion a allai effeithio arnyn nhw'n colli llety ar unwaith neu yn y dyfodol, ac arnyn nhw'n aildroseddu. Yn ogystal â hyn, mae'r cynllun yn eu helpu i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder angenrheidiol i gynnal eu hannibyniaeth a rhoi unrhyw gamau angenrheidiol ar waith i atal colli'u llety yn y dyfodol.

**Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, cysylltwch â Kevin O'Connell.**

**E-bost:** HousingFirstScheme@groups.poblgroup.co.uk

## Darparwr: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

## Prosiect: Seicotherapydd Gwybodus ynghylch Trawma

### Disgrifiad o'r gwasanaeth

Bydd y Gwasanaeth yma'n gwella'r Garfan Iechyd Arbenigol sydd eisoes wedi'i sefydlu a byddan nhw'n gweithio mewn partneriaeth i ddarparu ystod strwythuredig o wasanaethau i wella Iechyd a Lles cleientiaid a leolir mewn Hosteli, Llety Dros Dro a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau Tai yn Gyntaf ar draws Cwm Taf Morgannwg.

Mae digwyddiadau trawmatig fel arfer yn annisgwyl. Mae damweiniau, salwch, trychinebau, ymosod, brwydro, cam-drin rhywiol, emosiynol a chorfforol i gyd yn ddigwyddiadau a allai fod yn drawmatig. Gall digwyddiadau o'r fath wneud i ni deimlo'n ddryslyd ac yn ofidus. Efallai y byddwn ni'n teimlo bod ein byd wedi cael ei droi wyneb i waered.

Bydd y prosiect yn darparu cefnogaeth emosiynol i fynd i'r afael â'u hanghenion iechyd meddwl i denantiaid hosteli, llety dros dro a gwasanaethau Tai yn Gyntaf. Helpu unigolion i gynnal iechyd corfforol a meddyliol da gan gynnwys mynd i'r afael â materion yn eu bywydau sy'n ymwneud â chynnal a gwella iechyd trwy gynnig amrywiaeth o Therapïau Seicolegol wedi'u llywio gan drawma.

### Proses atgyfeirio

Bydd yr holl atgyfeiriadau ar gyfer y prosiect yma'n cael eu hatgyfeirio o garfan Iechyd Arbenigol Cwm Taf Morgannwg yn Uniongyrchol i Ddarparwr ar gyfer y gwasanaeth Trawma, yna'n cael eu hasesu a bydd pecyn cymorth yn cael ei roi ar waith ar gyfer cymorth Trawma arbenigol.

**Hoffech chi ragor o wybodaeth? Cysylltwch ag Alexandra Catt.**

**E-bost: alexandra.catt@ctmmind.org.uk**

GWASANAETH
ALLGYMORTH TAI ARBENIGOL -
MATERION IECHYD

SPECIALIST HEALTH HOUSING
OUTREACH SERVICE

## Darparwr: Cwm Taf Morgannwg

## Prosiect: Gwasanaeth Allgymorth Tai Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau Arbenigol

### Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae'r Gwasanaeth Allgymorth Tai Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau Arbenigol yn garfan o staff sy'n ymroddedig i helpu'r rhai sy'n ddigartref ac mewn cartrefi bregus. Darparu ymyrraeth arbenigol mewn perthynas ag iechyd a lles. Mae'r garfan yn cynnwys Nyrsys (nyrsys iechyd corfforol, iechyd meddwl a defnyddio sylweddau), Gweithwyr Cymorth (a gyflogir gan y gwasanaeth iechyd a Barod), Meddygon, Gweithiwr Cymdeithasol RhCT a Chynghorwyr wedi'u Hysbysu â Thrawma (MIND).

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi unigolion sy'n cael trafferth cael mynediad / ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl / camddefnyddio sylweddau traddodiadol neu sydd â phroblem benodol yn ymwneud ag iechyd. Unigolion sydd wedi'u lleoli mewn llety dros dro, llety brys (Gwely a Brecwast) ac unigolion addas o'r Prosiectau Tai yn Gyntaf ar draws Cwm Taf Morgannwg. Ac yn olaf mae'n cefnogi unigolion gyda'u hanghenion camddefnyddio sylweddau / iechyd meddwl nes eu bod yn gallu trosglwyddo i wasanaethau traddodiadol.

### Proses atgyfeirio

Swyddog cymorth tai awdurdod lleol neu ddarparwr tai i lenwi ffurflen atgyfeirio a'i hanfon i'r mewnflwch allgymorth arbenigol.

AllgymorthArbenigol@rctcbc.gov.uk

### Hoffech chi ragor o wybodaeth? Cysylltwch â

Leanne Davies: 07385 370165
Natasha Jones: 07385 406263